## Ffair lyfrau Aberystwyth 7fed Ebrill 2001


Yn dilyn llwyddiant y Ffair Lyfrau a gynhaliwyd yn Y Bala fis Medi y llynedd penderfynodd pwyllgor gwaith Cymdeithas Bob Owen gynnal digwyddiad tebyg yn Aberystwyth eleni. Neuadd BethSeilun oedd y dewis o ran lleoliad a dydd Sadwrn, Ebrill 7 o ran dyddiad. Ac yn wir cafwyd ffair lwyddiannus iawn unwaith eto. Llwyddwyd i ddenu ugain o stondinwyr, rhai ohonynt yn llyfrwerthwyr profiadol gyda stoc safonol tu hwnt ac eraill yn achub ar y cyfle i glirio'r tŷ neu'r garej. Eraill yn gwerthu hen fapiau, printiadau a llestri. Estynnwyd yr un croeso iddynt gan Gymdeithas Bob Owen, yn ddi-wahân.

Agorwyd y drysau am 10 y bore a chafwyd llif cyson o bobl trwy'r dydd. Yn ôl ein trysorydd bu tua 200 yn ymweld â'r ffair yn ystod y dydd, pob un yn talu punt tuag at gostau'r Gymdeithas. Ein gŵr gwâdd oedd y darlledwr a'r awdur Lyn Ebenezer. Bu'n difyrru'r dorf am beth amser gyda'i hanesion a'i atgofion am Niclas y Glais.

Roedd 'na filoedd o lyfrau ar werth yno a sylwais ar sawl llyfr digon gwerthfawr, er enghraifft: *Welsh Botanology* (Davies), *The Heart of Northern Wales* (Bezant Lowe), *History of printing and printers in Wales to 1810* (Jones), *The Welsh vocabulary of the Bangor district* (Fynes-Clinton). Hefyd roedd nifer o lyfrau o hen Wasg Gregynog yn ogystal â llyfrau J. Gwenogvryn Evans i'w gweld yno.

Diddorol oedd sylwi'n fanwl ar ystumiau amrywiol bobl wrth iddynt weithio eu ffordd trwy'r llyfrau oedd ar werth. Pob un â'i nodwedd ei hun. Rhai yn cydio'n ofalus ym mhob llyfr gan fodio'n hamddenol trwy'r tudalennau cyn ei osod yn ôl yn ei briod le. Eraill yn gwneud arolwg cyflym o'r teitlau, eu llygaid yn gwibio'n sydyn o un pen y rhes i'r llall, gan estyn ambell lyfr nawr ac yn y man.

Yna, yn hwyr neu'n hwyrach, roedd yn rhaid penderfynu prynu'r llyfr neu beidio. Ambell un yn bendant iawn, gan roi'r llyfr yn nwylo'r llyfrwerthwr ac estyn i'w boced mewn un symudiad bron. Eraill yn fwy petrus, yn enwedig os oedd y pris braidd yn uchel. Sylwais ar sawl un yn bodio trwy lyfr am sbelan go hir cyn ei roi 'nôl ar y silff, dim ond i ddychwelyd ymhen rhyw ddeng munud wedi



*Lyn Ebenezer*

gwneud y penderfyniad i'w brynu!

Carwn ddiolch i aelodau'r pwyllgor a fu'n helpu gyda'r trefniadau, i'r rhai a fu'n gweithio wrth y drws ac yn y gegin ar y diwrnod, i swyddogion Capel y Morfa, yn enwedig Hughie Hughes a M.G. Thomas, yn ogystal ag i'r Cyngor Llyfrau am gael benthyg byrddau ychwanegol ar gyfer y stondinwyr. Hefyd i Lyn wrth gwrs, am agor y ffair.

Ond y mae'r diolch pennaf i chi'r aelodau a dyrrodd i'r ffair yn Aberystwyth ac a sicrhaodd ei llwyddiant. Os ydych eisiau cyfrannu at hwyl y prynu a'r gwerthu unwaith eto cofiwch fynychu ffair lyfrau Y Bala ddiwedd Medi.

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ar sut i wella neu ddatblygu'r ffeiriau hyn, rhowch wybod i'r swyddogion. Neu'n well fyth anfonwch bwt at y golygydd er mwyn i chi gael rhannu eich syniadau â'ch cyd-aelodau.

## Yn Eisiau

A. Cyfieithiadau i'r Saesneg:

1. HUGHES, Thomas Rowland (Cyf./Trans. Richard Ruck):
   *William Jones*, 1953 (*William Jones*, 1944)
   *Out of Their Night*, 1954 (*Chwalfa*, 1946)
   *The Beginning*, 1969 (*Y Cychwyn*, 1947)
2. OWEN, Daniel (Cyf. T. Ceiriog Williams & E.R. Harries)
   *Gwen Tomos*, 1963 (*Gwen Tomos*, 1894)
3. DAVIES, Edward Tegla (Cyf. Nina Watkins)
   *The Master of Pen y Bryn*, 1975 (*Gŵr Pen y Bryn*, 1923)

B. Cymraeg yn Unig:

1. PRICHARD, Caradog
   *Afal Drwg Adda*, Gwasg Gee, 1973

**Cysyllter ar (01873) 857520**

## Bargeinion

Cytunodd Cyhoeddiadau Glyndŵr i ostwng prisiau'r cyfrolau canlynol i aelodau'r Gymdeithas yn unig:

*The Book of Welsh Saints* gan T. D. Breverton: £19.99 yn lle £24.99

*The Dragon Entertains* gan Alan Roderick (Hanes bywydau 100 o ddiddanwyr Cymreig): £10.99 yn lle £12.99.

*The Secret Vale of Glamorgan* gan T. D. Breverton: £9.99 yn lle £13.99.

Manteisiwch ar y cyfle drwy yrru siec at Cyhoeddiadau Glyndŵr, Porth Glyndŵr, San Tathan, Bro Morgannwg CF62 4LW

Ffôn: (01446) 751693 Cludiant am ddim

## Raffl Cymdeithas Bob Owen

Gwelwch fod yna ddau lyfr raffl gwerth punt yr un y tu mewn i'r rhifyn. Rydym yn gofyn yn garedig ichi werthu'r tocynnau a dychwelyd y ddwy bunt (llai cost cludiant) i'r ysgrifennydd, y trysorydd neu'r golygydd cyn gynted ag sy'n bosibl.

Os gallwn sicrhau eich cydweithrediad, mi fydd y cylchgrawn yn ddiogel am eleni o leiaf.

Diolch am eich cefnogaeth.

# FFAIR LYFRAU'R CASGLWR

### Cynhelir Ffair Lyfrau, Printiadau a Hen Fapiau

Ysgol y Berwyn, Y Bala

fore Sadwrn, 29 Medi o 10 o'r gloch tan 4.

Bydd llyfrwerthwyr o bob rhan o Gymru yno, ac os bydd gennych ddiddordeb i werthu eich llyfrau, bydd pob croeso i chi osod stondin yno. Codir £15 am bob stondin. Gadewch i'r Ysgrifennydd wybod os oes diddordeb gennych.